

<b>Adroddiad i'r</b>	Cyngor Sir
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	27 Chwefror 2024
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol</b>	Y Cyngorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol
<b>Awdur yr adroddiad</b>	Liz Thomas, Pennaeth Cyllid ac Archwilio
<b>Teitl</b>	Treth y Cyngor 24/25 a Materion Cysylltiedig

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Yn ei gyfarfod ar 30 Ionawr 2024, fe osododd y Cyngor y gyllideb ar gyfer 2024/25, yn cynnwys lefel Treth y Cyngor. Mae angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau ychwanegol mewn ffurf benodol i sicrhau bod Treth y Cyngor a'i materion cysylltiedig yn gyfreithiol ddilys.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I osod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25 yn y modd y mae angen gwneud hynny'n gyfreithiol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Bilio, yn ystyried y prae-septau a dderbyniwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Cyngorau Tref/Cymuned a chyhoeddi lefelau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.
- 3.2. Bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, yn unol ag Adrannau 32 i 34 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a'r Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fel ag y maent yn adran 3 Atodiad A.
- 3.3. Bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, yn unol ag Adrannau 34 (2) i 36 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel ag y maent yn adran 4 Atodiad A.

- 3.4. Bod symiau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau fel a'u cyflwynir yn Atodiad C.
- 3.5. Bod lefel y gostyngiad ar gyfer Dosbarth A, B a C fel a nodir yn Rheoliadau Treth y Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 yn cael ei gosod ar sero ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 gyda'r cafeat bod hyn yn ddibynnol ar ddim newidiadau i ddeddfwriaeth nac amodau lleol.

## **4. Manylion yr adroddiad**

Oherwydd bod angen cymeradwyo'r penderfyniad a'r argymhellion yn y modd a bennwyd, mae Atodiad A yn cynnwys manylion yr adroddiad.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Os nad yw'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo, ni fydd yr Awdurdod yn gallu cyflwyno biliau Treth y Cyngor, felly ni fydd yr incwm sydd ei angen i ariannu Blaenoriaethau Corfforaethol ar gael.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r gost o gyflwyno a dosbarthu hysbysiadau Treth y Cyngor yn cael ei diwallu o fewn adnoddau presennol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Cwblhawyd asesiad lles ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn rhan o'r broses gyllidebol ac roedd yn ffurfio rhan o Asesiad o Effaith ar Les cyffredinol a luniwyd yn rhan o bapurau'r gyllideb a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 30 Ionawr 2024.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

Mae lefel Treth y Cyngor yn ffurfio rhan o'r gyllideb a bennwyd gan y Cyngor. Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, cyfarfodydd Briffio'r Cabinet, Arweinwyr Grŵp a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgol hefyd wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy gydol y flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor i osod Treth y Cyngor. Mae'r rheoliadau'n rhagnodol ynghylch sut y dylid gwneud hyn ac mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofynion hynny.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Risg ariannol o fethu â chasglu incwm Treth y Cyngor. Mae cyfraddau casglu'n uchel ac yn cael eu monitro'n agos drwy gydol y flwyddyn.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008.